**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Gwydnwch Ariannol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw Room, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| P N Bentu | J A Hale | S Joy |
| E T Kirchner | F D O'Brien | L V Walton |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Emily-Jayne Davies | Swyddog Polisi Strategol |
| Nick Huffer | Cyfreithiwr Cyflogaeth |
| Rhian Millar | Cydlynydd Ymgynghoriadau |
| Lee Wenham | Pennaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: Dim.

---

## 4 Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023 fel cofnod cywir.

## 6 Rhaglen Waith 2023-2024

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad y Rhaglen Waith a luniwyd gan Gyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforedig, a oedd yn cynnwys Cylch gorchwyl y Pwyllgor ac eitemau'r Rhaglen Waith awgrymedig ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023/2024.

Trafododd yr Aelodau eitemau'r Rhaglen Waith a'r allbwn disgwyliedig (fel y nodir isod):

| Cyfarfod Pwyllgor | Eitem y Rhaglen Waith | Allbwn disgwyliedig | Aelod y Cabinet a Phrif Swyddog |
|---|---|---|---|
| 20 Mehefin 2023 | **Ymrwymiadau Polisi:**<br><br>Dinas Hawliau Dynol | Cyfannu at gynllun gweithredu DHD 2024+ | Y Cyng. Elliott King<br><br>Lee Wenham |
| 25 Gorffennaf 2023 | **Trawsnewid Digidol:**<br><br>Gwasanaethau Cwsmeriaid / Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd | Parhau i ddatblygu safonau Gwasanaethau Cwsmeriaid a dylunio gwasanaethau i sicrhau y gall pobl gael mynediad at ein gwasanaethau'n ddigidol a'u bod yn gwneud hynny | Y Cyng. Andrea Lewis<br><br>Lee Wenham & Sarah Lackenby |
| 26 Medi 2023 | **a) Cydgynhyrchu:**<br><br>Y Camau Nesaf<br><br>**b) Cynllun Ariannol Tymor Canolig:**<br><br>Cyflwyno papur cefndir er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod mis Hydref | Cyfrannu at gamau nesaf y cyngor i gydgynhyrchu'n dilyn y prosiect CoPro Lab | Y Cyng. Hayley Gwilym/Lee Wenham<br><br>Ben Smith |
| 31 Hydref 2023 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig:**<br><br>Cynigion Arbedion y Dyfodol (manylion i'w cadarnhau) | Cyfrannu at adnabod arbedion posib yn ystod blynyddoedd 2-4 y CATC | Y Cyng. Rob Stewart<br><br>Ben Smith |
| 12 Rhagfyr 2023/23 Ionawr 2023 | **Trawsnewidiad y Gweithlu:**<br><br>Arweinyddiaeth a rheolaeth; a Dysgu a Datblygu | Cyfrannu at ddatblygiad ymddygiadau arweinyddiaeth newydd a chynnig dysgu a datblygu newydd | Y Cyng. David Hopkins<br><br>Rachael Davies |
| 27 Chwefror 2024 | **I'w chytuno'n hwyrach yn y flwyddyn** | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 23 Ebrill 2024 | **Paratoi'r Adroddiad Blynyddol** | Crynodeb o'r gweithgarwch a chanlyniadau rhaglen waith 2023-24 | Lee Wenham & Emily Davies |

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi'r cylch gorchwyl.
2) Cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer 2023-24 fel y'i hamlinellwyd ym mharagraff 2 yr adroddiad (ac fel y'i nodwyd uchod).
3) Dosbarthu’r rhaglen waith i'r pwyllgor.

## 7 Datblygiad Cynllun Gweithredu'r Dinas Hawliau Dynol 2023+

Cyflwynodd Pennaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid, gyda chymorth y Cydlynydd Ymgynghori, adroddiad a roddodd wybodaeth am ddigwyddiad Cynllun Gweithredu'r Dinas Hawliau Dynol (a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2023) a oedd yn ceisio mewnbwn ynghylch llunio Cynllun Gweithredu Dinas Hawliau Dynol Cyngor Abertawe.

Ar 16 Mehefin 2023, cyhoeddodd BGC Abertawe ei ddigwyddiad Cynnwys Cynllun Gweithredu ei Ddinas Hawliau Dynol. Roedd 103 o bobl yn bresennol, ac roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc (16 o blant ysgol uwchradd), pobl â phrofiad byw, busnesau, sefydliadau 3$^{ydd}$ sector, cynrychiolwyr uwch BGC ac arweinwyr y gymuned.

Yn ystod y digwyddiad hwn, rhoddwyd cyflwyniadau gan Brifysgol Abertawe ynghylch ymagwedd sy'n parchu Hawliau Dynol a'i hegwyddorion, cyn cyflwyniad ar yr egwyddorion ar waith. Gofynnwyd i bob person a oedd yn bresennol ynghylch beth gallant ei wneud i gefnogi Abertawe ymhellach fel Dinas Hawliau Dynol.

Yn dilyn cyflwyniadau, cynullwyd sesiynau gweithdy bord gron, lle gofynnwyd i gyfranogwyr ynghylch y prif faterion, pa gamau gweithredu posib y mae eu hangen a'r hyn a fyddai'n dangos llwyddiant ym mhob un o flaenoriaethau'r Dinas Hawliau Dynol. Dyma'r blaenoriaethau:

1) Trechu tlodi
2) Plant a theuluoedd diamddiffyn
3) Mynd i'r afael â gwahaniaethu
4) Cam-drin domestig a thrais
5) Ymwybyddiaeth o hawliau dynol

Defnyddir yr holl weithgareddau cynnwys i lunio'r Cynllun Gweithredu Dinas Hawliau Dynol ar gyfer Cyngor Abertawe a phartneriaid eraill BGC. Llunnir adroddiad llawn ar gynnwys ar gyfer y cynllun gweithredu, gan gynnwys mewnbwn y pwyllgor, a gellir ei ddosbarthu i'r pwyllgor, ynghyd â drafft cyntaf y cynllun gweithredu.

Roedd trafodaethau’r aelodau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer aelodau a swyddogion.
- Pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar.

- Cyhoeddusrwydd ynghylch Gweithdai a digwyddiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad addysgol a gwnaeth eu llongyfarch am gynnal digwyddiad llwyddiannus.

**Penderfynwyd:**

1) dosbarthu'r adroddiad sy'n nodi uchafbwyntiau'r dydd i aelodau'r pwyllgor.
2) Trefnu sesiynau hyfforddiant pellach ar gyfer aelodau'r pwyllgor.
3) rhoi'r cyfle i aelodau'r pwyllgor gymryd rhan yn yr arolwg.
4) Cynnull cyfres o weithdai yn ystod y flwyddyn ddinesig.
5) Dosbarthu dogfen hawliau dynol y Cynghorydd L V Walton i aelodau'r pwyllgor.
6) Dosbarthu'r llawlyfr poced i aelodau.

## 8 Dyddiadau ac amserau cyfarfodydd yn y dyfodol

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol ym mhecyn yr agenda a chynigiodd y dylid cynnal cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol am 2pm.

**Penderfynwyd** y byddai cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol yn dechrau am 2pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.28pm

**Cadeirydd**